# CERDD
# PEGI BAND.

## MAB.

Gan ffarwell, mae'n rhaid ymad'el
Rhoi ffarwel iti Pegi Band;
Mae'n rhaid boddloni, Duw sy'n rhanu
I lawr i'r army mae i mi gommand,
Ni wiw mo'r tyngu yn erbyn tynged,
Mae'n rhaid i'r blaned gael ei ffors;
Er's deuddeng nydd'rwy wedi m tyngu
I wasanaethu'r Brenin SIORS.

## MERCH.

Pryna'i suit o Sailor's lifre,
Ac ar eich hol mi fentra'n llon,
Nid oes na gwyr nac arfau gloywon,
A all fy rhwystro i fwrdd y llong;
Mentra'i 'n sawdwr gyda'r army
A'm gwn a'm cleddau,---byddaf hy
Yn mhlaid y brenin for the ranting roaring, [chwi.
Through the rejiment fleet dilynai'i

## MAB.

Gwybydd di fy anwylyd dirion,
Mai glasu wneiff dy ddwy-rudd wen,
Pan fyddo'r ffiffes a'r drums yn drumio
Bydd rhaid appirio bod y pen;
Pan godo'r Fflags a'r arfau gloywon,
A'r bwlets gleision, creulon glwy,

A'r mwg yn tarddu, a'r gwaed yn colli,
Pa galon merch na thorai'n ddwy?

MERCH.

Can ffarwell, mae'n rhaid ymad'el
A Duw o'r uchelder fo gyda chwi,
A Duw o'r nef fo i minnau'n gymar,
Rhaid mynd ar fyrder i'r ddaear ddu;
Pan fyddo 'nghorff yn rhodio'r dyffryn
Rwyf fel aderyn wedi ffoi,
O feddwl am fy anwylyd tirion
O glod a bery i Jacci Joy.

MAB.

Bildia'i Blas o ffasiwn newydd,
I roi teg ei dwyrudd ynddo i fyw;
Mynai'r Miwsic ffeindia eu moesau,
A phob pleserau i'm seren syw,
Myna'i waiting-maid i waitio,
Ac i dendio wrth gommand,
A chwech o weision mewn lifre cochion
I fyn'd wrth archiad Pegi Band.

MERCH.

Jackey Joy, pe medrech gredu,
Pa faint o g'ledi sydd ar fy mrest,
'Rwy fel oen ar ol y ddafad,
A fae'n ymddifad am y rest;
Neu fel blodeuyn fai'n blodeuo,
Neu rosyn coch wedi gwywo ei ddail,
Nid oes ond galar i mi ar y ddaear,
Am fy nghymmar hawddgar hael.

x805 22712 x

## MAB.

Cymmer galon, paid ag wylo,
Bydd di foddlon ronyn bach
Rho dy gred ar frenin Seion,
Dof adref os byddaf byw ac iach ;
Pan fyddai'n ymladd a'm gelynion,
Ynghiliau nghalon byddi di,
Gartre'n stoc fel gwinllan oleu,
Neu berl o'r India brafia'i bri.

## MERCH.

Pa leshad i mi gael golud,
Aur ac arian fwy na rhi,
Meini gwerthfawr o wlad yr India,
Neu berl o'r Russia brafiia'u bri,
Neu imi obaith am fod yn Brinses,
Ar frenhinaeth helaeth hael,
Cael eich cwmni a rhan o'ch c'ledi,
A fydd i mi yn fwy o fael.

## MAB.

Dyma fodrwy aur ragorol
O stamp frenhinol reiol ryw,
Glŷn yn narn o hon dy hunan,
A chofia orchymynion doethion Duw,
Tydi i mi, a minnau i tithau,
Nid ymdynu---ond ymrwymo a wnawn
Trwy'y rhyfel noeth a'r powder poeth,
Os gwel Duw'n dda do'n ol brydnawn.

YR

# HEN AMSER GYNT.

---

Bu'n hoff i mi wrth deithio 'mhell,
Gael groesaw ar fy hynt:
Mil hoffach yw cael "henffych well,"
Gan un fu'n Gyfaill gynt.

BYRDON.

Er mwyn yr amser gynt fy ffrynd,
Yr hen amser gynt;
Cawn wydraid bach cyn canu'n iach
Er mwyn yr amser gynt.

Yn chwareu buom lawer tro,
A'n penau yn y gwynt,
A phleser mawr yw cadw co'
Or hyfryd amser gynt,---Er mwyn, &c.

Er digwyddiadau fwy na rhi,
Er gwario llawer punt,
Er llawer coll ni chollais i
Mo'r cof o'r amser gynt---Er mwyn, &c.

Tra curo calon dan fy mhron,
Er mwyn ein hylon hynt,
Tra carai'm gwlad, tra llygad llon,
Mi gofia'r amser gynt.---Er mwyn, &c.

---

1847.